

# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB, PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 33
MAI 2011

Yn mhapur newydd y *Western Mail* gwelir yn ddyddiol ar dudalennau'r llythyron eitem o'r enw *Retro Report,* sef copi o adroddiad a ymddangosodd yn y papur rai blynyddoedd yn ôl. Yn ystod yr wythnos cyn y Pasg, gwelwyd stori o fis Ebrill 1999 am long danfor a ddarganfuwyd ar waelod y môr.  Roedd y llong hon o bwys hanesyddol arwyddocaol am mai hi oedd  yr esiampl hunan ysgogol gyntaf yn y byd, gan ei gwneud felly yn rhagflaenydd i longau tanfor modern. Fe'i dyfeisiwyd gan y Parchedig George Garrett, gweinidog  o Fanceinion, ond yn anffodus  suddodd y llong i waelod y môr ryw bum milltir o arfordir Rhyl ym 1880 ac nis darganfuwyd hi tan 1995.  O ganlyniad i'r darganfyddiad  ffurfiwyd Ymddiriedolaeth i sicrhau ei bod yn cael pob gofal gyda'r bwriad yn y pen draw o'i  chodi a'i diogelu. Ar y pryd nododd Prif Archifydd  Sir Ddinbych y byddai hi'n cymryd o leiaf ddwy flynedd i'w chodi am fod angen sicrhau'r cyllid anghenrheidiol i gyflawni'r dasg.

Gan fod sawl blwyddyn bellach wedi mynd hebio ers i'r adroddiad hwn ymddangos yn y *Western Mail* euthum i chwilota ar y we i weld beth yn union oedd ei hanes erbyn hyn. Wel, mae'n dal i fod ar wely'r môr! Ni wnaeth yr ymdrechion i'w chodi ddwyn ffrwyth. Yn ddigon eironig enw'r llong yw *Resurgam,* ac ystyr yr enw yw: 'Byddaf yn codi eto'. Mae'n enw da ar long danfor ond yn anffodus i *Resurgam*  mae'n dal i ddisgwyl i gael ei chodi!

Os yw'r *Resurgam* wedi treulio dros ganrif ar wely'r môr, tri diwrnod yn unig y bu Iesu yn y bedd cyn i Dduw ei atgyfodi. Wrth inni ddathlu atgyfodiad Crist o'r bedd fe lawenhawn yn y ffaith ei fod wedi maddau inni ein holl feiau, gan orchfygu marwolaeth  a pharatoi'r ffordd i'r bywyd tragwyddol yng ngrym ei gariad dwyfol i bawb sydd am gredu ynddo. Dyma i chi *Retro Report* o'r ganrif gyntaf sydd yn werth ei gyhoeddi a hynny am fod yr atgyfodiad hwn wedi digwydd mewn gwirionedd!

Pob bendith dros weddill Tymor y Pasg

Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939       E-bost: berwynfa@btinternet.com

**CALENDR MIS MAI 2011**

| **Cyhoeddwr y Mis: Richard W. Davies** | **Organydd y Mis : Mair Evans** | |
|---|---|---|
| 1 Mai 2.30 | Oedfa Gymun<br>Gweinidog | Bwrdd y Cymun: Sandra ac Ella |
| 8 Mai 10.00<br>5.30 | Cymanfa Ganu yn Seion, Stryd y Popty<br>Arweinydd:Dr Rhidian Griffiths . Cynhelir oedfa yn yr ysbyty hefyd am 3yp o dan arweiniad y Gweinidog. | |
| 15 Mai 2.30 | Oedfa Cymorth Cristnogol<br>Casgliad tuag at Cymorth Cristnogol<br>Bethel yn ymuno â Horeb | Gofal y Te: Sandra ac Ella |
| 22 Mai | Clwb Sul bach ac Oedfa Bregethu: Gweinidog | |
| 29 Mai 10.30 | Oedfa Bregethu: Gweinidog | |
| 5 Mehefin 2.30 | Oedfa Gymun : Gweinidog | Bwrdd y Cymun: |

**I'CH DYDDIADUR**

4 Mai: Cyfarfodydd Blynyddol y Senana yng Nglyn Ceiriog am 2yp a 5.30yh
4 Mai: Mynwenta - cyflwyniad awr ginio gan Dr Gwen Awbery yn y Drwm LLGC am 1.15yp
4 Mai: Rihyrsal y Gymanfa Ganu yn Seion, Stryd y Popty am 7yh
7 Mai: Taith y Crynwyr
11 Mai : Cinio Cymunedol yn Neuadd yr Eglwys.
11 Mai: Cymdeithas Bethel: Ymweliad â'r Amgueddfa.
11 Mai: Rihyrsal ar gyfer Dechrau Canu Dechrau Canmol yng Nghapel y Garn am 7yh
15-21 Mai : Wythnos Cymorth Cristnogol
16 Mai : Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol yn y Morfa 12-1.30yp
17-18 Mai: Cyfarfodydd Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion yn Adulam, Felinfoel.
19 Mai : Noson Goffi yng Nghapel y Methodistiaid, Penparcau 7-9yh
20 Mai: Bore Coffi Cymorth Cristnogol yn Eglwys Dewi Sant 10.30-12yp
20 Mai: Dyddiad olaf i roi eich enw ar gyfer Taith Mari Jones
23 Mai: Recordio Dechrau Canu Dechrau Canmol yng Nghapel y Garn
23-27 Mai: Siop Cymorth Cristnogol yn Festri Seion, Stryd y Popty
24 Mai : Cwrdd Gweddi Misol yn Festri Horeb am 7.30yh
25 Mai : Cinio Cymunedol Neuadd yr Eglwys
26 Mai: Cyfarfod yn Festri'r Garn i baratoi ar gyfer Taith Mari Jones am 7yh
3 a 4 Mehefin: Taith Mari Jones
8 Mehefin: Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas y Penrhyn yn Festri Horeb am 7.30yh
12 Mehefin : Gwibdaith i Soar y Mynydd.

**LLOFFION**

**Dymuniadau gwresocaf** i Mrs Connie Evans sydd wedi cael llawdriniaeth ac i Mrs Mairwen Jones, hithau hefyd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Brysiwch wella!

**Cydymdeimlwn yn ddwys** â phob un o'r canlynol:
teulu a chyfeillion y ddiweddar Miss Megan Thomas, un o gyn-organyddion Horeb a fu farw ym mis Ebrill; Ceris, ar golli modryb annwyl; Mrs Margaret Griffiths, ar golli ei thad-yng nghyfraith.

**Diolch yn fawr iawn i bawb** o aelodau Horeb a gyfrannodd i'r cyngerdd i godi arian tuag at Gronfa Tirion Lewis. Diolch yn arbennig i bob un o'r artistiaid ac i'r Parchedig Peter Thomas am ei eiriau pwrpasol yn ystod y noson ynghyd â chyfraniad ariannol hael. Codwyd £1,000 ar gyfer y gronfa. Braf oedd cael cwmni Tirion a'i theulu yn y cyngerdd. Dymunwn yn dda iddi.